# DINAS A SIR ABERTAWE

## COFNODION CYFARFOD Y Y CYNGOR

## A GYNHALIWYD YN SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y DDINAS, ABERTAWE DYDD IAU, 16 CHWEFROR 2017 AM 2.00 PM

**YN BRESENNOL**: Y Cynghorydd D W W Thomas (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| Y Cynghorydd(wyr) | Y Cynghorydd(wyr) | Y Cynghorydd(wyr) |
|---|---|---|
| C Anderson | J C Bayliss | P M Black |
| M C Child | A C S Colburn | D W Cole |
| A M Cook | J P Curtice | P Downing |
| C R Doyle | V M Evans | W Evans |
| E W Fitzgerald | R Francis-Davies | J E C Harris |
| T J Hennegan | L James | Y V Jardine |
| M H Jones | S M Jones | E T Kirchner |
| M B Lewis | R D Lewis | A S Lewis |
| C E Lloyd | P Lloyd | K E Marsh |
| P M Meara | H M Morris | J Newbury |
| C L Philpott | J A Raynor | T H Rees |
| P B Smith | R V Smith | R C Stewart |
| D G Sullivan | M Thomas | L J Tyler-Lloyd |
| G D Walker | L V Walton | |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): J E Burtonshaw, A M Day, J A Hale, C A Holley, J W Jones, P M Matthews, D Phillips, I M Richard, C Richards, R J Stanton, G J Tanner, C M R W D Thomas a/ac L G Thomas

130. **DATGELIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL A RHAGFARNOL.**

Rhoddodd Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd gyngor ynghylch y buddiannau personol a rhagfarnol posib a allai fod gan gynghorwyr a swyddogion mewn perthynas ag eitemau ar yr agenda.

Gwnaeth Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd atgoffa cynghorwyr a swyddogion na ddylid llenwi'r daflen "Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol" oni bai bod gan y cynghorydd/swyddog fudd i'w ddatgan. Nid oes angen dychwelyd ffurflenni os nad oes unrhyw beth i'w ddatgan. Hysbyswyd cynghorwyr a swyddogion hefyd y dylid datgan unrhyw fudd ar lafar ac yn ysgrifenedig ar y daflen.

Yn unol â darpariaethau'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

131. **GWAHARDD Y CYHOEDD**

Gofynnwyd i'r cyngor wahardd y cyhoedd rhag mynd i'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried yr eitem(au) f/busnes a nodwyd yn argymhellion yr adroddiad(au) ar y sail ei bod/eu bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel y nodir ym mharagraff gwahardd Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad i Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007 mewn perthynas ag eitemau busnes a nodir yn yr adroddiad(au).

Ystyriodd y cyngor Brawf Budd y Cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd rhag mynd i'r cyfarfod ar gyfer yr eitem fusnes lle'r oedd Prawf Budd y Cyhoedd yn berthnasol fel y nodir yn yr adroddiad.

**PENDERFYNWYD** y dylid gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitemau busnes canlynol.

**(SESIWN GAEËDIG)**

## 132. <u>PENODI'R PRIF SWYDDOG ADDYSG.</u>

Cyflwynodd y Prif Weithredwr adroddiad i geisio cadarnhau penodiad Prif Swyddog Addysg. Dywedodd fod y Pwyllgor Penodiadau wedi penderfynu yn ei gyfarfod ar 14 Chwefror 2017 y dylid argymell Nick Williams am y penodiad i'r cyngor.

**PENDERFYNWYD** y dylid cadarnhau penodiad Nick Williams i swydd y Prif Swyddog Addysg ar ôl ymadawiad deiliad presennol y rôl, Lindsay Harvey.

Daeth y cyfarfod I ben am 2.07 pm

**CADEIRYDD**